


papur



priordy

**Tydi a roddaist liw i'r wawr
a hud i'r machlud mwyn,
Tydi a luniaist gerdd a sawr
y gwanwyn yn y llwyn.
O cadw ni rhag colli'r hud
sydd heddiw'n crwydro drwy'r holl fyd.**

**T Rowland Hughes (1903-1949)
Caneuon Ffydd 131**

**Dewiswyd gan Gloria Evans
*Gweler y rheswm am ei
dewis y tu mewn***

**Rhifyn 345
PAPUR MEHEFIN 2021**



Trawma

BŪM yn eithriadol o ffodus i gael cyfle gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn ddiweddar i fynychu sesiwn hyfforddi ar *‘Weinidogaeth yn dilyn cyfnod o drawma.’*

Trefnwyd y sesiwn gan Gyngor Y Genhadaeth Fyd-Eang (Council for World Mission) ac fe’n harweiniwyd gan Y Parchg Ddr Carla Grosch-Miller, gweinidog ar eglwys yn Chicago ac un sy’n rhan fawr ei chyfraniad ym maes hyfforddi mewn colegau diwinyddol, gan arbenigo mewn hyfforddiant gweinidogaethau amgen.

Fel gweinidog yn Chicago bu’n gyfrifol am arwain yr eglwys drwy gyfnodau heriol iawn mewn ymateb i’r saethu yn ysgol uwchradd Columbia, 9/11 ynghyd â chyfnod heriol lleol.

Pwysleisiodd nad y digwyddiad ei hun yw’r trawma ond ymateb yr ymennydd i’r digwyddiad. Mae trawma yn rhywbeth cwbl naturiol, ac yn gallu bod yn gatalydd i bob math o effeithiau ar y meddwl a’r corff, e.e. blinder, dryswch, tristwch, gorbryder, i enwi ond rhai yn unig.

O edrych nôl dros y 18 mis diwethaf, fe’n heriwyd i feddwl am ein sefyllfaoedd lleol ni ein hunain e.e. yr eglwys, drwy geisio dadansoddi’i llwybr gan ddechrau gydag ergyd sydyn y cyfnod clo, ac yna’r ymateb arwrol, sef yr awydd i wneud er mwyn helpu eraill. Ond wrth i’r amser fynd yn ei flaen, cytunwyd fod y cyfnod arwrol wedi dechrau distewi, a’n bod bellach yn mynd trwy gyfnod lle rydym yn wynebu’r her o ailosod ac ailadeiladu’r eglwys wedi’r cyfnod clo. Roedd rhai ohonom o’r farn nad oedd ailadeiladu’n ddigon ond bod angen hefyd feddwl o ddifri am gyfeiriad newydd i’r eglwys.

Un agwedd ar yr hyfforddiant y bu cryn ymateb iddi oedd gofal am yr hunan. Nodwyd fod gweinidogion ac arweinyddion eglwysig wedi llwyr ymlâd wrth geisio arwain eu pobl drwy’r cyfnod clo. Fe’n hatgoffwyd am weddi Ignatius o Layola, Sbaenwr,

a Sylfaenydd Cymdeithas y Jeswitiaid...

**Dysg ni, Arglwydd, i'th wasanaethu fel yr haeddi,
i roi heb gyfri'r gost,
i frwydro heb ystyried y clwyfau,
i weithio heb geisio gorffwys,
i lafurio heb ddisgwyl unrhyw wobr
ond gwybod ein bod yn gwneud dy ewyllys di.**

Onid cynigiwyd fersiwn wahanol o'r weddi enwog hon a aralleiriwyd gan yr Esgob Kate Prowd, Melbourne, Australia sy'n darllen fel hyn...

**Dysg ni, Arglwydd, i'th wasanaethu fel yr haeddi,
i roi, ond i fod yn ymwybodol o'r gost,
i frwydro ond heb anwybyddu'r clwyfau,
i weithio, a bod yn hunan-dosturiol drwy chwilio am gyfleodd
i orffwys,
i lafurio, ond hefyd i wybod, wrth gyflawni dy ewyllys,
bod arnom angen hunanymwybyddiaeth
i feddiannu gwytnwch, er mwyn dy wasanaethu yn ffyddlon.**

A dyma weddi i bob yr un ohonom.



DARLLENIADAU



Mis Mehefin	Darlleniad
Wythnos 1	Marc 3: 20-35
Wythnos 2	Marc 4: 26-34
Wythnos 3	Marc 4: 35-41
Wythnos 4	Marc 5: 21-43

Pobol ifanc y Priordy'n arwain



Mae bywyd ar Zoom yn mynd ar garlam y dyddie hyn yndyw e? Ry'n ni'n byw bywydau cymdeithasol llawn drwy'n sgriniau ni. Mae'r rhan fwyaf ohonom wedi llwyddo i gynnal rhyw fath o fywyd ysbrydol drwy'r dechnoleg ddiweddaraf ac mae llawer i'w ddweud dros y fendith a gafwyd drwy'r we mewn cyfnod o argyfwng.

Mae cynulleidfda gyfyngedig wedi bod yn cwrdd yn y Priordy ers canol mis Ebrill bellach, gan barchu rheoliadau Covid a dilyn y canllawiau. Y mae'r gwasanaeth ar gael yn fyw dros Zoom i'r aelodau sydd am ymuno o'u cartrefi, ac ar ben hynny, yn nes ymlaen rhyddheir gwasanaeth dros YouTube ar sianel y Priordy i bwy bynnag yr hoffai wyllo.

Ebrill

22

Cynhaliwyd gwasanaeth ar 25 Ebrill i nodi Diwrnod y Ddaear sy'n digwydd ar 22 Ebrill bob blwyddyn. Rydyn ni'n cymryd y ddaear hon yn rhy ganiataol, ac mae'r sefyllfa amgylcheddol yn frawychus o enbyd, rydyn ni'n gweld effeithiau cynhesu byd-eang eisoes. Rhyw bryd, yn y dyfodol bydd hi'n rhy hwyr, ond y mae pethau y medrwn ni eu gwneud i liniaru'r sefyllfa. Ac er bod y neges yn un ddifrifol, fe gafwyd gwasanaeth bywiog a difyr ynghwmni ein pobol ifanc ni.

Yn gyntaf, cafwyd gair â'r plant lleiaf gan ein gweinidog, Beti-Wyn James, pan gynhaliodd hi ocsiwn cynhyrfus i werthu hen ffon ei thad-cu. Mi gyrhaeddodd bum can punt, gyda phlant y Priordy ond yn rhy barod i wario arian eu rhieni er mwyn prynu'r ffon. Ond, ar y funud olaf, penderfynodd Beti-Wyn beidio â gwerthu ffon ei thad-cu wedi'r cyfan, achos roedd y ffon honno, meddai hi, wedi cael ei throsglwyddo o'i thad-cu i ddwylo ei thad ac yn awr i'w dwylo hi. Felly, roedd y ffon yn rhy werthfawr i'w gwerthu, a gobeithiai ymhen blynnyddoedd y byddai hi'n medru trosglwyddo'r ffon i feddiant y genhedlaeth nesaf. Roedd yr un peth yn wir am y ddaear hon, medd Beti-Wyn, fe gawsom ni'r ddaear gan y cenedlaethau a ddaeth o'n blaenau, gwarcheidwaid y'm

ni, a dylem drosglwyddo'r ddaear i'r cenedlaethau a ddaw heb geisio'i gwerthu hi'n rhy rhad.

Arweiniwyd gweddill y gwasanaeth gan PIP, sef Pobl Ifanc y Priordy, disgyblion y chweched dosbarth fu wrthi, gan eu bod nhw mewn swigen ysgol gyda'i gilydd, roeddent yn medru dod ynghyd i arwain y gwasanaeth. Clywyd datganiadau meddylgar iawn gan y criw am ba mor rhyfeddol yw'r ddaear hon a chymaint o bethau gwych sydd ynddi, ein bod ni fel pobl wedi manteisio'n ormodol arni ac yn y pen-draw mai pobl fydd yn dioddef fwyaf. Rydym ni'n defnyddio llawer gormod o adnoddau'r byd ac mae angen i ni ailgylchu, ailddefnyddio a lleihau ein gwastraff – mae'r cyfan yn ein dwylo ni. Cynigiwyd awgrymiadau ar sut i fod yn fwy darbodus yn ein defnydd ni o adnoddau'r ddaear gan gynnwys edrych ar yr hyn yr ydym ni'n ei wisgo a'r diwydiant ffasiwn, y dylem brynu'n ddoeth, yn llai aml, a hefyd y dylem brynu'n ail-law. Mae ystyried faint yr ydym ni'n ei ddefnyddio o adnoddau'r ddaear yn ffordd o fyw'n well.

Ni yw ceidwaid y ddaear hon a'n dyletswydd ni yw edrych ar ei hôl hi, er lles y blaned ac er ein lles ni ein hunain hefyd – cafwyd hanesion perthnasol o Genesis hyd at heddiw yn dangos hyn i ni. Diolch felly i Gareth, Carina, Betsan, Gwenllian a Harri a'u deuwad ffidil hyfryd, Gwennan, Elain a Lucy am ein harwain ni yn ein myfyrdodau ac i'n herio ni, fod gan bob un ohonom ni ein rhan wrth warchod ein daear ni, er mwyn ein plant, a phlant ein plant.



Cafwyd bendith bendant ynghwmni'r criw ifanc, wyneb yn wyneb am y tro cyntaf ers cantoedd, a hynny mewn modd diogel a chyfrifol.

AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys *Papur Priordy*)

YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?

Cyswllt

PHILIP JONES

Trysorydd

☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk



AELODAU PIP A GYMERODD RAN YN Y GWASANAETH



Elin Meek ...

Oedfa Ddathlu 150 mlynedd y Priordy 7 Mai 2021



Cyflwynodd y Gweinidog yr oedfa arbennig hon fel *'tamaid i aros pryd'* oherwydd y cyfyngiadau presennol. Mynegodd ei gobaith y bydd modd cael dathliad mwy cyhoeddus yn ddiweddarach eleni.

Roedd yr emyn cyntaf gan J.J. Williams, 'Molwn enw'r Arglwydd', yn addas iawn i'r cyfnod ansicr diweddar, yn enwedig y cwpled *'pan fo'r byd yn siglo / pery Duw yr un'*. Gwelwyd cefnlen o olygfeydd hardd o ardal Caerfyrddin a oedd yn ddigon i godi hiraeth ar y rhai ohonom sydd wedi gadael yr ardal.



*'Oherwydd da yw'r Arglwydd;
Y mae ei gariad hyd byth,
A'i ffyddlondeb o genhedlaeth i
genhedlaeth'.*

Nid cyd-ddigwyddiad yw hi bod y Priordy wedi cynhyrchu cymaint o ddarlledwyr a siaradwyr cyhoeddus: cafwyd hyfforddiant mor drylwyr gan athrawon yr Ysgol Sul dros y degawdau. Braff oedd gwrandao ar Sulwyn Thomas, un o'n ddarlledwyr mwyaf blaenllaw, yn darllen adnodau o Lyfr y Salmau ac Efengyl Matthew. Roedd y rhan hon o ddiwedd Salm 100 mor berthnasol i'r oedfa hon:

Pwysleisiodd Meleri O'Leary yn ei chyflwyniad nad dathlu'r adeilad 145 oed y mae'r eglwys eleni, ond diolch am weledigaeth sylfaenwyr yr Achos, ac am bod cenhedlaeth sydd wedi cadw fflam



ffydd ynghyn. Roeddwn i'n arbennig o hoff o'r darn a oedd yn diolch am y 'Gweinidogion a swyddogion, athrawon yr Ysgol Sul, ffrindiau oes, Antis ac Wncwls nad oeddynt yn perthyn i ni drwy waed ond eu bod yn Antis ac yn Wncwls i holl blant yr eglwys'.

Aeth y Parch Beti-Wyn ati (ar ôl mynd nerth ei thraed o gwmpas y capel i chwilio am y llyfryn gan y Parch E. Keri Evans am hanes y Priorddy) i roi crynodeb pwrpasol o'r hanes – o ddechreuadau'r achos yn y Tanerdy, ryw 200 mlynedd yn ôl, a phenderfyniad y Parch Cadfan Jones i brynu tir, codi sied a chael morgais i godi'r capel yn y 19eg, ymlaen i'r ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif ar hugain gan roi sylw i bob gweinidog a'i gyfraniad / chyfraniad. Edrychwn ymlaen at gyfrol Elinor Wyn Reynolds a fydd yn cloriannu'r hanes maes o law. Yr her, yn ôl Beti-Wyn, i bobl y Priorddy yn 2021 yw *'parhau i chwilio am ffyrdd newydd o gyflwyno'r newydd da, a chadw'r teulu'r Eglwys ynghyd hefyd'*.



Hyfryd oedd gweld Catrin Heledd, un o blant y Priorddy ac un o'r 'ffrindiau oes' y cyfeiriodd Meleri atynt, yn cyflwyno'r weddi. Gallwn ddyfynnu'r weddi yn ei chyfanrwydd a dweud y gwir, ond dyma'r llinellau clo: *'Yn ein diolchgarwch, helpa ni i ymwroli o'r newydd i waith dy efengyl, er mwyn cadw fflam ffydd ynghyn, a sicrhau y bydd yr eglwys yn Y Priorddy barhau i fod yn oleuni ar fryn sy'n pelydru cariad Crist i'w chymuned'*. Does dim dwywaith y bydd Catrin yn un o'r rhai a fydd yn gwireddu hyn.



Daeth Ethan a Gwennan yn llawn bwrlwm i gyflwyno'r her y soniodd Beti-Wyn amdani eto. *'Yr her i ni yw cyflwyno Iesu mewn ffyrdd newydd a ffres.'* / *'Ymlaen â ni at yr hanner canrif nesaf! Bant â'r cart!'* Gyda

brwdfrydedd dau ifanc fel Ethan a Gwennan, gall y Priordy edrych ymlaen at y dyfodol yn llawn hyder.

Mae eglwys y Priordy'n ffodus iawn o'i phrifardd, Tudur Dylan, a luniodd soned wych gogyfer â'r achlysur. Mae'r wythawd yn ystyried beth fyddai barn y '*saint o fil wyth saith deg un*' am y capel erbyn hyn, a'r chwechawd (y dyfynnr pump o'i linellau yma) yn rhoi'r ateb –

*'Fe welent fod yr achos yn parhau,
Nid geiriau syber na wynebau prudd
Ond clywent gân a chwerthin lleisiau iau.
Fe welent gynulleidfa'n dal yn drîw
Ac yn lle du, gweld Iesu'n gwisgo lliw.'*


Priodol iawn oedd cloi'r oedfa ddathlu gydag emyn David Charles (o Langynnwr, pwysleisiaf), sef '*Rhagluniaeth Fawr y Nef*'.

Os '*tamaid i aros pryd*' oedd yr oedfa ddathlu, roedd yn damaid sylweddol a blasus, gyda'r cynnwys a'r diwyg graenus yn nhraddodiad gorau'r Priordy ac yn llwyr deilwng o'r achlysur hanesyddol hwn. Wrth imi ysgrifennu, roedd yn agos at chwe chant a hanner o bobl wedi gwylio'r darllediad ar sianel YouTube y Priordy. Mae'n amlwg, felly, fod y Priordy ar flaen y gad ar ôl cant a hanner o flynyddoedd ac eisoes yn defnyddio '*ffyrdd newydd o gyflwyno'r newydd da*'.




Diolch yn fawr iawn i Elin am yr adroddiad hwn. Cofiwn yn amnwyll iawn am rieni Elin, sef y diweddar Ifan a Siân Dalis Davies, a'u ffyddlondeb i'r Priordy dros y blynyddoedd.

COFIWCH BARHAU I GADW STAMPIAU A CHETRYS



Y PLANT A'R DATHLU!



Diolch i'n Gweinidog am gynnwys y plant yng Ngwasanaeth Dathlu Pen-blwydd yr Eglwys. Cawsant hanesyn i'w gofio a buont wrthi'n ddiwyd yn gweithio ar daflenni a baratowyd ar eu cyfer gan Jayne Woods.



150

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

Irene Williams

John a Carys Green

Rhian Evans

Iris Owen

a

David a Hefina Lloyd

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

ATGOFION ANN AC IFOR YN LLIFO!

A ninnau yn nhymor dathlu Eglwys y Priordy yn 150 mlwydd oed, does dim pall ar atgofion dau o'n ffyddloniaid, Ann Griffiths ac Ifor Evans - y ddau yn hannu o deulu mawr fel y gwelwch yn y llun sydd yn Mhapur Priordy'r mis hwn!

Meddai Ann:

Dw i'n cofio eistedd gyda'r plant ar y llofft ar bwys yr organ ac yn dweud adnod. Os na fyddwn i'n cofio'r un newydd byddwn yn cwmpo'n ôl ar 'Duw Cariad Yw'. Ro'dd hynny'n digwydd yn eitha aml! Dw i'n cofio y bydden ni fel teulu yn y Cwrdd Plant yn canu gyda'n gilydd yn y pulpud a mam Rhian wedi'n dysgu. Roedd cof da iawn gyda Gwynfor, fy mrawd, am adrodd penillion a byddwn innau'n canu wrth fy hunan weithiau. Yn yr Ysgol Sul Fawr wedyn mam Sulwyn oedd yn ein dysgu. Dw i'n cofio fy chwiorydd a fi'n angylion yn y ddrama Nadolig ar y llwyfan yn y festri. Ro'n ni'n gwisgo gwn nos yr un (night dress) a Mrs Lydia Protheroe, menyw hyfryd, yn eu haddasu i wisgoedd angylion! Fe briodais i yn Y Priordy, gyda'r Parchedig T James Jones yn gwasanaethu. Fe hefyd fedyddiodd y ddwy ferch, Julie ac Alison, eto yn y Priordy. Byddai'r teulu cyfan yn cerdded i'r cwrdd ar y Sul. 'Nhad oedd yn croesi Heol Y Prior yn gyntaf, ac fe fyddai rhaid i'r plant aros tan iddo fe groesi. A byddai'n syllu arnon ni yn y cwrdd er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn bihafio!



Ac meddai Ifor:

Dw i'n cofio'r Parchedig Cyril Williams yn dod yn weinidog i'r Priordy ac yn gwrando arna i'n dweud adnod. Byddai'r galeri yn llawn yn y bore a'r nos. Byddai 'Fathyr' yn torri'r lawnt ac yn cwmpo'r coed i'r Gweinidog yn yr Elmwydd a minnau'n cael ei helpu. Dw i'n cofio Eisteddfod y Plant a Mam ac Anti Nan yn gwneud bagiau bach yn cynnwys pishin tair, chwech neu swllt ar gyfer yr enillwyr. Os oedd hanner coron yn y bag ro'ch chi'n teimlo fel 'millionaire'! Dw i'n cofio mynd ar Drip yr Ysgol



Sul a Fathyr, oedd yn gweithio yn y Towy Saw Mills, fyddai'n gwitho'r batiau criced. Fe hefyd oedd yn gwitho'r ffyn bugail ar gyfer Pasiant y Plant. Yn y Parti Dolig wedyn, dw i'n cofio taw tad Dai Lloyd fyddai'r Father Christmas. Fathyr withodd y stolau bach yn y Festri hefyd. Dw i'n cofio adrodd wrth fy hunan yn yr Eisteddfod ar y llwyfan yn y Festri. Byddwn i'n gosod Tedi Bêr ar un o'r stole bach ac yna'n adrodd:

*Nawr Tedi paid â siarad
a phaid ag edrych draw.
O's rhaid i mi dy guro
â chansen ar dy law?
O Tedi, paid â llefen,
Tyrd, gad i ni whare siop.*

Dw i'n cofio'r darn hyd heddiw ac yn ei ddweud bob dydd.

Wel, Diolch yn fawr i Ann ac Ifor am eu hatgofion hyfryd. Cafodd Ann fwynhad mawr yn y Priordy pan oedd yn blentyn ac mae'n falch o weld cymaint o blant yn y capel heddiw ac yn cael pleser mawr wrth wrando arnynt yn cymryd rhan. Mae Ifor hefyd wrth ei fodd ac yn gresynu braidd fod y Sul wedi newid cymaint yma yng Nghaerfyrddin - fel mewn mannau eraill yn ein gwlad - dros y blynyddoedd.

Os oes unrhyw atgofion gan eraill ohonoch, cofiwch gysylltu â ni. Dyw hi byth yn rhy hwyr!

PANED CYN NOSWYLIO



Beth am ynuno â ni am sgwrs fer a phaned cyn noswylio?



Nos Fercher 7 Gorffennaf 2021 am 8 yr hwyr

Cwis a digon o hwyl!

***Byddwch yn derbyn y dolenni ar gyfer y cyfarfodydd hyn
mewn da bryd***

ANN AC IFOR A'R TEULU CYFAN



Y Parchedig Tom Evans yn cofio...

Y Parchedig Athro-Emeritws

Ddr Cyril Glyndwr Williams

(1.6.1921 – 31.5.2004)



Ganwyd Cyril Glyndwr Williams yn union gan mlynedd yn ôl i eleni. Mab ydoedd i David a Hannah Williams, Frogmore, Pont-iets, Llanelli. Tebyg mai ychydig a feddylodd ac a ddychmygodd y teulu a ddibynnai gymaint ar y pwll glô beth fydde tynged a dylanwad y baban hwn ar hanes crefydd yng Nghymru a thu hwnt yn yr Ugeinfed Ganrif!



Bu i'r plentyn dyfu i fod yn Weinidog, addysgwr ac awdur toreithiog, Gwelwyd ei yrfa'n mynd ag ef o Gwm Gwendraeth i'r Brifysgol yng Nghaerdydd lle y graddiodd gydag Anrhydedd yn yr Hebraeg. O'r fanno, nôl i Sir Gâr, i 'Goleg y Presby' yng Nghaerfyrddin, i orffen ei radd BD a chymhwyso ei hun ar gyfer y Weinidogaeth. Ar derfyn ei amser yn y 'Presby.', derbyniodd 'alwad' i'r Tabernacl, Pontcymmer; Capel Radnor Walk, Chelsea

ac wedyn i Gapel y Priorddy, Caerfyrddin. Bu'r gweinidogaethau hyn yn rhai cyfoethog iawn i'r sawl a fu'n 'eistedd' wrth draed Cyril G Williams, ond yr oedd dylanwad ei fentor academiaidd yn y Brifysgol yng Nghaerdydd, sef yr Athro Aubrey Johnson, yn dal yn drwm arno o hyd.


Ymhen amser mi adawodd Williams y Gweinidog y 'weinidogaeth fugeiliol' draddodiadol i ddilyn ei ddileit yng nghrefyddau'r byd, yn gynta fel Darlithydd ar Hanes y Crefyddau yn y Brifysgol yng Nghaerdydd. Deng mlynedd yn ddiweddarach, ym 1968, fe'i gwahoddwyd i fod yn Athro'r Crefyddau ym Mhrifysgol Carleton, Ottawa, Canada. Ym 1973, dychwelodd i Gymru i fod yn Bennaeth Adran ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth. Roedd yno Adran ifanc iawn yn cynnig cyrsiau ar Grefyddau'r Byd, a bu i'r Brifysgol gynnig Cadair academiaidd bersonol iddo yn Aberystwyth. Ym 1983, gwelwyd yr Adran yn Aberystwyth yn ymuno â'r Adran Ddiwinyddol yn y Brifysgol

yn Llanbedr Pont Steffan, lle y llwyddodd ymdrechion Cyril G Williams i sicrhau gwau ac integreiddio astudiaethau.

Nid mater o astudio'r crefyddau oedd unig nod Cyril G Williams. Yn ogystal, yr oedd yn awyddus i gael gwerin Cymru - aelodau'r capeli a'r eglwysi yn ogystal â'r sawl nad oedd ganddynt unrhyw grêd neu argyhoeddiad crefyddol - i werthfawrogi llenyddiaeth a dysgeidiaeth y crefyddau ochr yn ochr â Christnogaeth. Heb os, yr oedd, ac fe saif gwaith academiaidd y gŵr hwn gyda'r disgleirïaf o astudiaethau ar grefyddau'r byd. Does dim amheuaeth felly fod Cyril G Williams yn ŵr o flaen ei amser yma yng Nghymru. Er iddo gael ei barchu a'i anrhydeddu yn y byd academiaidd, clae'r iawn oedd ymateb ei gyd-Weinidogion a'r Enwad(au) i'r astudiaeth o'r ysgrythurau yr oedd Cyril G Williams yn eu hagog ger eu bron!

Fel unrhyw berson meistrolgar yn ei faes, doedd Cyril G Williams ddim am gadw goleuni ei allu academiaidd iddo'i hunan. Medraf dystio iddo fod yn gyfaill a chymwynaswr gyda i ni fel staff yn yr Adran Ddiwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefydd yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin ar hyd y blynyddoedd. Roedd iddo barch mawr ar draws y Prifysgolion a'r Colegau yma yng Nghymru a thu hwnt, fel Arholwr Allanol teg a chywir hefyd.

Cyhoeddodd doreth o lyfrau academiaidd yn y Gymraeg a'r Saesneg, ynghyd â gwर्सlyfrau ar gyfer disgyblion ysgol. Saif ei lyfr 'Crefyddau'r Dwyrain' (1968) gyda'r gorau o hyd fel cyfrol feistrolgar yn y dasg o gyflwyno'r crefyddau Dwyreiniol i'n cynulleidfaoedd a darllenwyr Cymraeg eu hiaith. Adeg cyhoeddi'r llyfr, roeddwn i yn fyfyrwr yng Ngholeg Coffa'r Annibynwyr yn Abertawe, ond wyddech chi, rhoddwyd y pwylais i ni ar lyfr 'Man's Religion' gan Noss! Paham na fyddem ni wedi cael ein hannog i ddarllen mwy o waith y Cymro disglair hwn, dwedwch?! Ai mater oedd hi, ys dywed loan yn y Testament Newydd, "...nad oes i broffwyd anrhydedd yn ei wlad ei hun"?



Mi ddysgodd a meistrolodd Cyril G Williams yr iaith Sanskrit, a chyda cymorth cyfaill iddo, y Doethor Nalini Devdas o Brifysgol Carleton, bu

iddo gyfieithu 'Y Bhagavad Gita' - ysgrythur yr Hindw - i'r Gymraeg, sef 'Y Fendigaid Gân'. Teithiodd ar draws y DU yn ei waith, a hefyd i Dde Korea a'r India. Bu iddo hefyd draddodi darlith yng Nghanolfan Bwdhaeth yn Tokyo.

Ei ddileit arall oedd gyrfa Timothy Richard o Ffaldybrenin a Griffith John o Langyfelach, Abertawe. Dau ŵr a aeth allan yn Genhadon i Tsieina. Yn ôl pob hanes, roedd Griffith John hefyd yn allweddol yn y gwaith o sefydlu'r *Union Hospital* yn Wuhan - yr ysbyty a fu ar y newyddion droen ar doriad pla COVID-19 y llynedd!

Ynghyd ag anrhydeddau lu am ei waith academiaidd, roedd Cyril G Williams yn Gymrawd Anrhydeddus o Brifysgoll Caerdydd, a chefais innau'r fraint o'i gyflwyno yn Gymrawd Anrhydeddus o Goleg y Drindod, Caerfyrddin.

Yn lleol, a chydag eraill, gadawodd Cyril a'i briod Irene Williams, sy'n dal yn aelod yn Y Priordy, eu hól ar y dref yma, sef Caerfyrddin, drwy ymgyrchu am addysg cyfrwng Cymraeg i blant y dre. Ymhen yr amser, gwelwyd sefydlu Ysgol Gynradd Gymraeg, sef Ysgol Pentrepoeth, neu 'Ysgol y Dderwen' fel y'i hadnabyddir heddiw.



Gŵr tawel, addfwyn ei gymeriad, Annibynnwr da a barodd yn aelod ffyddlon o Undeb yr Annibynnwyr ar hyd ei oes. Roedd yn 'wrandawr' caredig, gwerthfawogol ac amyneddgar ar y negeseuon a draddodwyd o'n pulpudau o Sul i Sul.

Coffa da felly ar y ganfed am un o fawrion byd crefyddol Cymru yr 20fed Ganrif! Ei waith a saif i'r cenedlaethau a ddêl. Diolch i Dduw amdano, am iddo fwrw ati i agor ein llygaidd i brydferthwch a chyfoeth yr ysgrythurau sanctaidd eraill sy'n cyfoethogi'n llwybrau, wrth i ninnau ddysgu a dod i ddeall mwy am yr Anweledig sy'n ein huno fel un teulu mawr, byd-eang.

Mae'n diolch yn fawr iawn i'r Parchedig Tom Evans am fod mor barod i ddarparu'r deyrnged arbennig hon ar ein cyfer

APÊL MIS MEHEFIN

Byddwn yn cynnal apêl yng nghapeli'r Ofalaeth yn ystod mis Mehefin, sef casglu **pecynnau tabledi gwag** (*empty blister packets*) fel sydd yn y llun ac yn eu cyflwyno i Fferyllfa Nigel Williams yng Nghaerfyrddin trwy law dau o aelodau PIP (Pobl ifanc y Priordy) sy'n gweithio yn y Fferyllfa, sef Carina a Betsan.



Mae'r pecynnau gwag yn cael eu hailgylchu gan TerraCycleUK a bydd y Fferyllfa'n derbyn pwyntiau i'w trosglwyddo'n gyfraniadau ariannol ar gyfer elusennau o'i ddewis.

Felly, dewch â'ch pecynnau gwag (unrhyw dabledi) i'r capel yn ystod Mehefin, os gwelwch yn dda. Cofiwch wneud yn siŵr bod y pecynnau'n rhai gwag. Bydd blwch mewn man diogel yn y cyntedd ar eu cyfer.

Dlloch

Beti-Wyn

CWRDD GWEDDI



Nos Fercher – 8 Medi 2021 am 7



Croeso cynnes i bawb. Does dim rheidrwydd ar unrhyw un i gymryd rhan. Eich cwmni sy'n bwysig. Cyfle gwyh i ymdawelu a myfyrio gyda'n gilydd. Cofiwch ymuno.

Cewch y ddolen zoom yn nes at yr amser

SKANDA VALE

LLE rwyf wedi bod yn ymwybodol ohono drwy mywyd yw Skanda Vale sydd ond rhyw bum milltir o'm cartref genedigol.

Cafodd ei sefydlu ym 1973 ger

Llanpumsaint gan **Guru Sri**

Subramaniam oedd yn hannu o Sri

Lanka. Cymuned aml-grefydd yw

Skanda Vale sy'n gartref i fynachod a

lleianod sy'n derbyn 90,000 o

bererinion i'w tair teml yn flynyddol.

Hindwiaid yw'r mwyafrif o'r pererinion er

bod y gymuned yn agored iawn i

grefyddau eraill sy'n addoli un Duw.

Maent yn dathlu'r prif wyliau Bwdhaidd

ac yn cynnal gwasanaeth Cristnogol

bod dydd Sul. Mae croeso mawr i

bererinion fynd yno i ddysgu mwy am Dduw. Mae'r lle'n ymestyn

dros 300 erw ac mae'r ardal naturiol yn rhoi heddwch meddwl a

chymorth i gryfhau'n gorfforol, emosiynol ac yn ysbrydol.



Efallai i chi glywed am helynt y tarw **Shambo** a gafodd brawf

diciau positif nôl yn 2007 ac

angen iddo gael ei ddifa yn

dilyn polisi'r Llywodraeth.

Bu tipyn o brotestio yn erbyn

hynny a dadleuwyd yn gryf

dros ei achub ac aed â'r

achos cyn belled â'r Uchel

Lys. Credent fod lladd

Shambo yn sarhau

traddodiad eu crefydd ac yn

mynd yn groes i'w daliadau



crefyddol. Llwyddwyd i gael 20,000 o bobl i arwyddo deiseb o blaid achub Shambo ond ofer fu eu hymdrechion.

Mae Skanda Vale hefyd yn gartref i gannoedd o adar, ymlusgiaid a physgod, nifer ohonynt wedi eu hail-gartrefu yn dilyn esgeulusdod a'r enwocaf o'r rhain yw **Valli**, yr eliffant o Sri Lanka sy'n 35 oed. Gwelwyd Valli yn gwanhau ac fe'i gymerwyd i Gartref Eliffantod Amddifad. Yn fuan wedyn, cafodd Valli ei roi i Skanda Vale gan yr



Arlywydd Jayawardena mewn cydnabyddiaeth o'r gwasanaeth roddwyd i bobl Sri Lanka oedd yn byw ym Mhrydain. Mae Valli'n cael lle anrhydeddus yno gyda thri gofalwr llawn amser ac adeilad pwrpasol yn gartref iddo gan gynnwys waliau wedi eu cynhesu, rheadr, pwll ac ardal tywod. Erbyn hyn, mae **Lakshmi**, eliffant 52 mlwydd oed wedi dod yno'n gwmni i Valli wedi ymddeol o fyd y syrcais yn Ffrainc i dderbyn yr un gofal.

Ym 1987, wrth i'r sylfaenydd Guru Sri Subramaniam wella yn yr ysbyty yn dilyn trawiad difrifol ar ei galon, daeth yn ymwybodol



iawn o ofnau ac unigrwydd rhai o'i gyd-gleifion. Fe sbardunodd y cyfnod hwnnw iddo gychwyn **Hosbis Skanda Vale** ym mhentref Saron sy'n cynnig gofal am ddim i deuluoedd wedi eu heffeithio gan afiechydon difrifol sy'n cyfyngu bywyd. Gall cleifion aros yn ystafelloedd moethus yr hosbis am gyfnod a derbyn gwasanaeth urddasol o'r radd flaenaf.

Mae mynachod a lleianod Skanda Vale yn gweithio'n llawn amser yn yr hosbis fel gwirfoddolwyr ac wedi cymhwyso'n broffesiynol. Mae gofalu am eraill yn rhan

bwysig o'u bywyd ysbrydol. Nifer fach o staff cyflogedig sydd yno ac maent yn cael cefnogaeth arbennig gan wirfoddolwyr sy'n gweld gwerth mawr darparu'r gwasanaeth. Mae rhai o'r gwirfoddolwyr yn gweithio i'r GIG ac yn rhoi gwasanaeth i'r hosbis hefyd o'u gwirfodd. Erbyn hyn, mae fy nheulu estynedig wedi elwa'n fawr o'r gwasanaeth hwn a finnau wedi cael ymweld â'r lle mewn digwyddiad elusennol lle roedd y claf yn eillio'i phen a rhai o'r staff yn ymuno â'r weithred fel arwydd o'u cefnogaeth. Roedd sylwi ar ambell wên gan brif ofalwr y claf yn amhrisiadwy. Yn hollol annisgwyl, roedd yn ymweliad cartrefol, hapus, croesawgar a chariadus sydd wedi gadael cryn argraff arnaf.

**Cynhelir
Cyfarfodydd Blynnyddol
Undeb Annibynwyr Cymraeg
yn rhithiol eleni**




**Dydd Mawrth 29 Mehefin
2.00 Cynhadledd
7.00 Oedfa Bregethu
Y Parchedig Casi Jones**

**Dydd Mercher 30 Mehefin
2.00 Cynhadledd
7.00 Anerchiad gan y
Parchedig Lydia Neshangwe,
Llywydd CWM**

**Dydd Iau 1 Gorffennaf
7.00 Oedfa'r Llywydd**

Gwasanaeth Cymorth Cristnogol Cymraeg Caerfyrddin Dydd Sul 16 Mai 2021

Cyhaliodd Gwasanaeth Wythnos Cymorth Cristnogol cyfrwng Cymraeg ein tref yn rhithiol ar Nos Sul, 16 Mai 2021. Diolch il'r Parchedig Delyth Richards, Eglwys Crist, am drefnu a chyflwyno ac i'r Parchedig Beti-Wyn James am ofalu am yr ochr dechnolegol. Traddodwyd y myfyrdod gan Y Parchedig Ddr Ainsleigh Griffiths a seiliodd ei sylwadau ar thema'r Wythnos, sef Argyfwng Hinsawdd, gan roi sylw i ddifffyg mynediad i ddŵr glân mewn gwahanol rannau o'r byd a goblygiadau hynny i'r tlodion. Cymerwyd rhan hefyd gan gynrychiolwr o wahanaol gapeli ac eglwysi'r dref ynghyd â Siân Elin.



YMGYRCH MARI JENKINS!


Mae Mari Jenkins wedi bod yn pobi a gwerthu bara er budd Canolfan Maggie's Ysbyty Singleton.



Gellir archebu torth drwy gysylltu â Mari.

Mae Mari eisoes wedi crasu dros 50 o dorthau. Felly, peidiwch ag oedi os

ydych am archebu a thrwy hynny hybu'r achos!



Y DAITH YDI ADRA
John Sam Jones

Mai 2021

Parthian Books
£15.00

Cyfieithiad Siân Northey o hunangofiant John Sam Jones am fyw bywyd ar y ffin, rhwng gwirionedd a chelwydd, rhwng gwrthodiad a derbyniad. O'i blentyndod ar arfordir Cymru i gyfnod cythryblus yn fyfyrwr is-raddedig ym mhrifysgol Aberystwyth, aeth i ennill ysgoloriaeth yng Ngholeg Berkley yn San Francisco wrth i haint AIDS ddechrau gafael yn y gymdeithas

Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org

AM YN AIL

John Gwilym Jones
Tudur Dylan Jones

Mai 2021



Barddas: £9.95

Casgliad o gerddi gan y prifeirdd John Gwilym Jones a Tudur Dylan Jones gyda'u cerddi wedi eu gosod 'am yn ail' yw'r gyfrol hon.

Dyma'r tro cyntaf erioed i'r tad a'r mab gyhoeddi cyfrol o farddoniaeth ar y cyd.

Lansiwyd y gyfrol sy'n canolbwyntio ar deulu a pherthynas y ddau gyda'i gilydd, ar Gymru ac ar fro, ar iaith a chenedl drwy Zoom yn ystod Wythnos Tafwyl.

Bu'r ddau brifardd yn Feirdd y Mis ar Radio Cymru yn ystod mis Mai 2021. Buont hefyd yn ateb ambell gwestiwn ar BBC Cymru Fyw.



RHYWLE FAN HYN Dafydd Iwan

Ebrill 2021

Gwasg Carreg Gwalch
£8.00

Rydyn ni wedi clywed rhai o ganeuon Dafydd Iwan ers dros hanner canrif. Mae'r geiriau a'r alawon mor gyfarwydd. Maent yn rhan o fywyd pob Cymro gwerth ei halen. Eto, mae rhywbeth newydd i'w ddsygu am bob cân.



Ifanc @Priordy

Helo bawb

Dydy ni dal ddim cweit yn ddigon hyderus i ailgychwyn yr Ysgol Sul ar hyn o bryd oherwydd bod cymaint ohonoch yn mynd i gymaint o ysgolion gwahanol! Felly...mae POB gwasanaeth yn y capel yn wasanaeth i'r teulu cyfan gyda gweithgaredd arbennig i chi blant bob Sul. Diolch i bawb sydd wedi bod yn dod, ac edrychwn ymlaen at weld y gweddill ohonoch whap!



**Fedrwch chi gracio'r côd
i ddod o hyd i'r adnod?**



A	B	C	D	E	F	G	H	I	J	K	L	M	N	O	P	Q	R	S	T	U	V	W	X	Y	Z
A	N	F	K	P	O	U	Y	T	Q	E	J	H	G	W	L	S	I	Z	B	M	D	X	C	V	R



VHOKVFVV RKQG, 'VKOXM AZ CH FP R

AX CK'XM NOBAC HB THQNFIOHZ VHBRFB.'

Cofiwch ein dilyn ar Facebook a Twitter, ac
ein gwe-fan www.priordy.org

Hwyl am y tro, Beti-Wyn xx

**Iesu'n galw'r pysgotwyr. Mae 6 pheth yn eisiau yn yr
ail lun! Fedrwch chi ddod o hyd iddynt?**



Fi ydy'r winwydden go iawn, a Duw, fy Nhad i, ydy'r garddwr. (Ioan 15:1)

Gofynnodd eich Gweinidog, Beti-Wyn, i mi ysgrifennu adroddiad byr am fy amser gyda chi yn yr Ofalaeth. Ac fel arfer, wrth i fi eistedd wrth y 'laptop', roeddwn yn crafu fy mhen. Ond, wrth i fi feddwl nôl am y Sul cyntaf oll yn eich cwmni, ac am bregeth Beti-Wyn, cefais fy ysbrydoli.



Testun y bregeth oedd '*Fi ydy'r winwydden go iawn*', a'r neges oedd bod y cyfan ry'n ni'n ei wneud yn tyfu o'n ffydd yn Iesu Grist. Ni yw'r canghennau. Soniodd Beti-Wyn hefyd am 'hunaniaeth' - bod ein hunaniaeth wedi'i gwreiddio yn ein ffydd. A thrwy ein ffydd mae'r gwreiddiau'n cryfhau ac yn tyfu.

A dechreuais feddwl am bwrpas a phwysigrwydd gwreiddiau. Pwrpas gwreiddiau yw bod yn angor a bwydo'r planhigyn. A dyna beth sydd wedi fy nharo dros y mis diwethaf. Rydych fel Gofalaeth wedi cael eich gwreiddio'n ddwfn yn eich cymuned ac yn eich ffydd. Mae'r ddau yn un. Mae'r capel a'r Gweinidog yn angor i chi, yn eich cadw rhag cwympo. Hefyd, rydw i wedi sylweddoli eich bod yn gweithio gyda'ch gilydd at yr un nod. Fel y blodyn haul sy'n tyfu ac yn chwilio am y golau, rydych eisiau i'r achos dyfu yn eich ardal, ond hefyd i'r bobl weld goleuni'r Crist Byw trwy eich gweithredoedd da.

Mae'r cyfloedd rydw i wedi'u cael dros y mis diwethaf wedi bod yn arbennig iawn. Bod yn rhan o'r oedfa Gymun. Cwrdd â Guto'r oen, neu 'wên' fel y byddwn yn ei ddweud yn Sir Benfro! Cyfarfodydd di-ri ar Zoom a'r cyfle i gymryd rhan yn oedfa Cymorth Gristnogol trwy'r cyfrwng yma sydd wedi dod yn holl bwysig i ni dros y flwyddyn ddiwethaf, cwrdd â chariadon bach Meithrinfa Cwts y Clos, helpu Beti-Wyn i recordio rhaglen ar gyfer Radio Glangwili,

a bod yn rhan o dîm buddugol y merched yn y Paned cyn Noswyllo. Cefais y fraint hefyd o gyfarfod ag Uwch-Gaplan Bwrdd Iechyd Hywel Dda, Euryl Howells - gŵr yn llawn doethineb a chyingor i fyfyrwraig fach yn dechrau ar ei gyrfa. Dydw i ddim yn meddwl fod yna le yn eich papur i fi restru'r cyfan rydw i wedi'i wneud.

Hefyd, erbyn y bydd yr erthygl hon yn cael ei hargraffu, byddaf wedi cael y cyfle i bregethu yn eich cwmni! (Anadl drom!).

Byddaf yn dechrau fy ngweinidogaeth wedi gwneud ffrindiau da yn eich Gofalaeth. Gallaf ond dweud diolch a dymuno pob bendith i'ch Gweinidog, ac i chi fel Gofalaeth, am ddyfodol disglair wedi'i wreiddio yn ein Harglwydd Iesu Grist. Wrth i Iesu fod yn wreiddyn sydd yn angor ac yn eich bwydo, gallwch chi ddim ond tyfu a llewyrchu. Gobeithio y bydda i nôl i'ch gweld eto'n fuan!



TAFODIAITH – GEIRIAU A DYWEDIADAU

Rwy'n gredwr mawr mewn cadw iaith lafar a thafodiaith ardal, ac rwy wrth fy modd yn gwrandao ar bobl yn siarad ac yn defnyddio iaith a dywediadau eu hardal nhw eu hunain.



Dyna pam yr oeddwn yn ddiolchgar iawn i un o ddiaconiaid Y Priordy, sef **Gwynfor Davies**, Brynderwen, Heol Abergwili, am iddo roi i mi lawer blwyddyn yn ôl 'gopy book' y diweddwr **Simon Davies** a arferai fyw ym Mhontweli, Llandysul ac a fu yn Glerc Cyngor Gwledig Castellnewydd Emlyn am



flynyddoedd lawer.



Mae yn y llyfr hwn gasgliad helaeth o eiriau, idiomau a dywediadau pob dydd yn nhafodiaith Sir Gaerfyrddin, a hoffwn rannu gyda chi ddetholiad o'r casgliad hwnnw. Ond, y tristwch mawr, o'm safbwynt i beth bynnag, yw fy mod mor gyfarwydd gyda'r rhan fwyaf ohonyn nhw ac eto pa mor aml yr wyf yn eu defnyddio wrth siarad? Beth amdanoch chi? O fewn un cenhedlaeth arall, mae'n bosibl y bydd y rhan fwyaf o'r geiriau hyn wedi diflannu am byth.

Dyma rai ohonyn nhw:

'Ma fe wedi'i blawdo hi!' – ffordd o ddweud bod rhywun wedi gwneud camgymeriad neu'n fethiant; **'Na gwipse ma fe'n neud'** - yr wyneb yn edrych yn drist iawn; **'gwneud cleme'** - rhywun sy'n gwneud siapiau, ran amlaf ar ei wyneb; **'yn pledo'** - yn dadlau neu ymbil; **'Ma' fe yn y falen'** - yn isel ei ysbryd; **'twmlo'** - chwillio trwy bethe yn wyllt; **'sgidadla hi o ma'** - cer o'ma ar unwaith; **'wedi pango'** - wedi paso

mas neu ffeinto; **'coiled'** - llond col neu digon o waith; **'whare cwato'** - y plant fyddai'n arfer chwarae trwy fynd i guddio; **'cwlffyn o foi'** - dyn o faint go dda; **'wedi mynd yn ffradach'** - wedi mynd o'i le; **'cawl potsh'** - popeth yn gymysg i gyd; **'pibren'** - y loshinen fach wen gron â blas pepermint arni; **'peth wmbredd'** - llawer iawn; **'un sgapwrth'** - un gweithgar er ychydig yn arw; **'drato'** - o diar!; **'dim gwerth y baw'** - gwerth dim byd; **'na hadyn/haden'** - un go lawen; **'trwsgwl'** - lletchwith; **'browlan a brygowthan'** - siarad yn ddi-stop; **'bwldagu'** - yn cael trafferth wrth siarad; **'rhwtio'** - rhwbio; **'oifad'** - nofio; **'labwst neu labwstyn'** - clamp o berson; **'mae tro yn ei gwt e'** - allwch chi ddim ei dristo fe; **'wedi danto'** - wedi rhoi lan; **'yn gwmws'** - yr un peth yn union; **'cledro'** - yn taro neu guro; **'byddai 'na glatsh'** - byddai yno ar unwaith; **'ffisto'** - taro neu wedi ennill; **'cymercyn'** - ddim yn rhy dda; **'dwnshwn'** - dyfnder; **'towlu'** - taflu; **'trwco'** - cyfnewid; **'yn whys drabwd'** - wedi chwysu'n ofnadwy; **'sgwlcan'** - bwyta pan nad yw hi yn amser bwyd; **'carcus'** - yn ofalus; **'carco'** - edrych ar ôl rhywun; **'boichen'** - gwneud sŵn oherwydd poen (anifail fel arfer); **'damshel'** - damsgyn; **'stegesh'** - yn wlyb iawn neu le mwdlyd; **'caton pawb'** - Well, Well!; **'shigwdad'** - ysgwydad; **'cecran'** - rhyw gweryla ysgafn; **'bigitian'** - pryfocio; **'cawl twymo'** - ail waith; **'dod i fwcwl'** - wedi dod i drefn; **'gwichal'** - math o sgrechian; **'tolio'** - bod yn gynnil; **'yn gwmws fel'** - yn union fel; **'comopo rhywun'** - rhoi rhywun yn ei le; **'yn ei gwrcwd'** - rhywun wedi plygu.



'SGWN I a oes casgliad o'r math hwn gyda chi? Hen lyfr a gadwodd un o'r teulu efallai? Os oes, rhowch wybod gan ei bod mor bwysig i gadw'r hen eiriau a'r dywediadau hyn ar lafar. Mae'n fwrriad gen i ychwanegu at y casgliad sydd eisoes wedi ei ddechrau ar wefan 'Stori Fawr Dre-fach Felindre' Ar y llaw arall, beth am wneud casgliad eich hunan o'r geiriau a ddefnyddiwyd bob dydd? Ewch ati.



Cwrdd Plant 23 Mai

GŴYL o lawenydd yw'r Pentecost a dyma a deimlem wrth gerdded i mewn i gapel y Priordy i gyfeiliant y Band Bach gyda Vicki a Tomos, ein drymiwr newydd



Dechreuodd y gwasanaeth gyda'r efeilliaid, Cadi ac Ifan, yn cyflwyno'r gân fywiog "Dewch nawr i ddawnsio'n Llawen i Dduw" ac roeddem i gyd yn symud i'r miwsig.

Oherwydd Cofid 19 bu'n rhaid i Beti-Wyn drefnu bod plant yr ysgol Sul yn cymryd rhan yn eu swigod teuluol - gorchest ryfeddol o feddwl am y gwahaniaeth oedran.

Thema'r gwasanaeth, yn naturiol, oedd Ysbryd Duw ac fe eglurodd Mali, wrth groesawu pawb, fod y Pentecost yn un o brif wyliau'r eglwys.



Ac yn ôl yr hanes yn Llyfr yr Actau fe ddigwyddodd rhywbeth od iawn pan oedd ffrindiau Iesu Grist yn eistedd gyda'i gilydd.

Daeth Ethan ac Iestyn i ddarllen y stori am yr Ysbryd Glân yn disgyn fel gwynt nerthol a'r fflamau'n tasgu. Dechreuon nhw siarad mewn ieithoedd eraill ac roedd pawb yn eu deall yn eu hiaith eu hunain. Dilynwyd hyn gan ffilm fer yn dangos ymateb cegwrth y disgyblion.

Esboniodd Osian a Trystan nad oedd dim byd "scarey" yn yr ysbryd yma ond mai Ysbryd Duw oedd, a'i ffordd o barhau gwaith Iesu Grist ar y ddaear.

Cyflwynodd teulu Snelson y ffordd yr oedd yr Ysbryd yn rhoi nerth i bethau yn ein bywydau bob dydd fel bod rhaid wrth betrol yn y car, gwynt yn nhears y beic, batris mewn "torch" neu drydan i weithio cyfrifiadur. Dyma sydd yn rhoi nerth i ni garu eraill.

Un nodwedd o'r gwasanaeth oedd amrywiaeth arddull yr emynau fel "Ceisiwch yn gynta Deyrnas ein Duw" a gyflwynwyd gan Luned.

Diolchodd Gwenan ac Elen yn y weddi am yr Ysbryd Glân sydd wedi ein harwain i weld angen eraill, i dawelu pob ofn, i deimlo'n ddiogel ac i obeithio am heddwch i'n byd.

Er na fedrwn ganu gyda'n gilydd, "Os wyt yn hapus gyda'r Iesu Dyro glap", cafodd Beti-Wyn y syniad i bawb i wneud yr ystumiau addas yn unig - clapio, nodio, clicio bysedd a churo 'r llawr. Roedd y plant wrth eu bodd.

Mae'n rhyfeddol fel y mae Beti-Wyn yn canfod ffordd ffres i gyflwyno neges oesol. Llwyddodd y tro hwn drwy sôn, i ddechrau, am y tywydd gyda lluniau yn dangos tywydd heulog glawog, cymylog, eira, ac yna lun gwyn gwag- yn cynrychioli'r gwynt. Ni all neb ei weld ond ei deimlo.

Wrth ddod i mewn i'r capel cafodd pob plentyn gwdyn bach a nawr daeth yr amser i'w hagar. Y peth cyntaf i'w dynnu allan oedd melin wynt fach. O'i chwythu dyma hi'n troi yn arwydd bod yr Ysbryd Glân yn ein helpu ni i wneud pethau. Yr ail beth oedd pluen yn cynrychioli'r golomen ac yn symbol o heddwch a llawenydd. Yn drydydd gwelsom gannwyll fach gyda batri. Roedd y fflam yn arwydd o olau ac yn ein harwain i wneud y penderfyniadau iawn. Yn olaf - bisged "Jammy Dodger". Y jam yn y canol ar siâp calon yn dangos bod Duw yn ein caru ac wedi danfon Iesu Grist i'r byd.

Roedd yr emyn olaf yn crisialu llawenydd a hwyl y gwasanaeth gyda Dewi Pws, yn ei ffordd ddihafal ei hun, yn canu'r emyn poblogaidd- "Mae popeth yn dda".

SIÂN ELIN, sydd gyda ni ar gyfnod o hyfforddiant, ddaeth â'r oedfa i ben gyda gweddi syml.




DYMA'R UNDEB

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg
Rhifyn 55 Gwanwyn 2021

Copïau ar gael gan yr Ysgrifennydd



CWRDD PLANT Y PENTECOST





NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

Y DATHLU

Cyfarchion Pen-blwydd arbennig i chi yn y Priordy o Salem, Caernarfon. Deallwn mai ar 7 Mai 1871 yr agorwyd y Priordy - naw mlynedd ynghynt yn yr un mis ym 1862 yr agorwyd Salem Caernarfon! Pan ddathlwyd 150 yn Salem cafwyd geiriau a thôn gan Mererid Mair. Maent yr un mor berthnasol i'ch dathlu chi. Y pennill cyntaf a'r gytgan oedd:

**Fe ganwn a dathlwn a chodi'n llais fel un
I foli a diolch am fflam y dyddiau fu,
Am weledigaeth ac ymdrech
I rannu neges Teyrnas Duw
A nerth yr Ysbryd yn y dre'
I gadw'r fflâm yn fyw.
Cyt**

**Canwn gân, o canwn gân
Cân o ddiolch cân o foliant, cân ein Duw.
Gras a chariad Calfarî,
Gobaith bore'r trydydd dydd,
Canwn gân a chynnal fflam y ffydd**

TARO MEWN

Dan adain Cyngor Eglwysi'r dref bob bore Mawrth yn festri Salem o 10.00-11.30 bydd cyfle i gyfarfod a



chymdeithasu dros baned a sgwrs gyda myfyrdod am 11. Oherwydd y Feirws doedd hi ddim yn bosib cyfarfod ond yn ddiweddar cawsom gyfarfod am y tro cyntaf ers misoedd. Rydym am newid yr enw o TARO MEWN I TARO ALLAN! Roedd hi'n rhyfeddol faint ddaeth - er bod Morus y gwynt yn dangos ei ddannedd!

ADDOLI YN Y CAPEL

Ar ben-blwydd yr achos yn Salem, ar yr ail Sul o Fai, aethom yn ôl i'r capel ar gyfer oedfa bore Sul gan ofalu fod y rhai nad oedd yn hapus i ddod i'r capel yn medru ymuno ar Zoom. Diolch i'ch Gweinidog am ei chymorth i wella safon y Zoom o'r adeilad.

Rheswm Gloria Evans dros ddewis yr emyn *Tydi a roddaist liw i'r wawr...*

RAI blynyddoedd yn ôl roeddem mewn cyngerdd yn y Neuadd Albert, Llundain lle canodd y côr *Tydi a roddaist liw i'r wawr a hud i'r machlud mwyn*. Cofiaf am yr ias o glywed y côr mawr, dan faton yr arweinydd Haydn James, yn codi'r to gyda'r *Amen*. Mae'r emyn o waith T Rowland Hughes, gyda naws a gobaith y gwanwyn a'r haf yn un o'm ffefrynnau.



Roedd **T Rowland Hughes** yn gweithio gyda'r BBC yn y tridegau pan



ofynnwyd iddo gynhyrchu perfformiad ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi. Penderfynodd ysgrifennu emyn i gloi'r achlysur, a rhannodd ei syniad gyda'i gydweithiwr **Arwel Hughes** a oedd yn Bennaeth Cerdd.

Gofynnodd

iddo gyfansoddi tôn i'r geiriau, gyda'r cais fod y pennill olaf yn codi i uchafbwynt gyda'r *Amen*.

Ar ei daith o Fangor i Gaerdydd roedd Arwel Hughes pan dreuliodd rhai oriau yn disgwyl y



trên yng ngorsaf Yr

Amwythig. Cofiodd am y darn papur yn ei boced, gyda geiriau'r emyn roedd ei gyfaill wed'u hysgrifennu, ac aeth ati ar unwaith i gyfansoddi'r dôn. Mae'n priodi'n berffaith â'r geiriau ac wedi gwneud yr emyn yn boblogaidd hyd heddiw. Mae **plac** wedi ei osod yng



ngorsaf rheilffordd Yr Amwythig yn cofnodi mai yno y cyfansoddwyd yr emyn-dôn gan Arwel Hughes.

TEITHIO nôl ar y trê'n oeddwn i pan welais y machlud haul mwyaf anhygoel. Roedd yr awyr yn fflamgoch uwch castell Llansteffan a'r lliwiau'n adlewyrchu ar y môr, golygfa ryfeddol. Rhyfeddu at y greadigaeth mae T Rowland Hughes yn yr emyn; lliw y wawr a machlud haul, cân yr adar a synau natur. Yn ystod y dyddiau clo mae llawer, wrth fynd am dro yn eu hardal, wedi darganfod llwybrau newydd a gwerthfawrogi byd natur. Mae Duw wedi darparu ar ein cyfer ni i gyd, ac mae'r emynydd yn gweddïo ar i ni gael ein hatgoffa am gariad Duw at y ddaear gyfan, a'n cyfrifoldeb i ofalu amdani.



Gweddill yr Emyn

Tydi a luniaist gân i'r nant
a'i su i'r goedwig werdd,
tydi, a roist i'r awel dant
ac i'r ehedydd gerdd,
O cadw ni rhag dyfod dydd
na yrr ein calon gân yn rhydd.

Tydi a glywaist lithriad traed
Ar ffordd Calfaria gynt,
tydi, a welaist ddafnau gwaed
Y Gŵr ar ddieithr hynt,
O cadw ni rhag dyfod oes
Heb goron ddrain na chur na chroes.

CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher 16 Mehefin 2021 am 7
Naill ai yn y Festri neu ar Zoom

Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda

Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin
Caerfyrddin?
Trowch at: cyfundeb.com



AELODAU NEWYDD

Croeso i'r Dr Angharad a leuan Wyn a'r plant, a dderbyniwyd yn aelodau yn yr Oedfa Gymun ar Sul cyntaf Mai.




Papur Priorddy yn cofio....

Robert Tudur Jones

1921- 1998

Pregethwr, Diwinydd, Hanesydd, Athronydd a Gwleidydd Cymraeg

Fe'i ganed yn Nhyddyn Gwyn, Rhoslan, Eifionydd ar 28 Mehefin 1921 ond cafodd ei godi yn Y Rhyl. Ymhlith y dylanwadau cynnar arno roedd Ysgol Ramadeg y Rhyl, yn enwedig T I Elis y pennaeth a gyflwynodd Roeg iddo a'i athro hanes S M Houghton i weithiau a syniadau'r Piwritaniaid. Yn yr ysgol hon hefyd y cwrddodd â'i ffrind oes, Emyr Humphreys (1919-2020), un o nofelwyr mwyaf blaengar Cymru, a dod i arddel cenedlaetholdeb, wedi'i ysgogi gan helynt yr Ysgol Fomio ym 1936. Dylanwad mawr ar ei Gymreictod a'i fywyd ysbrydol oedd yr aelwyd a'r capel, sef Eglwys Annibynnol Carmel (sydd bellach wedi cau) ble roedd y teulu'n addoli. Daeth hefyd dan ddylanwad pregethu T Glyn Thomas, Wreccsam (tad Rhodri Glyn Thomas) a Martyn Lloyd Jones pan oeddent yn ymweld â'r Rhyl.



Ar ôl derbyn ei addysg gynnar, ymaelododd yng Ngholeg Bala-Bangor



fel ymgeisydd am y weinidogaeth a graddio'n BA a BD gydag anrhydedd y dosbarth cyntaf. Ym Mangor bu'r athronydd crefyddol J E Daniel yn ddylanwad mawr arno. Aeth ymlaen wedyn i Goleg Mansfield Rhydychen ble cyflawnodd draethawd

ymchwil ar fywyd a gwaith y Piwritan Cymreig Vavasor Powell am radd Doethor. Tra oedd yn Rhydychen cafodd gyfle hefyd i dreulio tymor yn y Gyfadran Brotestannaidd ym Mhrifysgol Strasbourg.

Ym 1948, cafodd ei ordeinio'n weinidog ar Gapel Annibynnol

Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth cyn symud, ymhen rhyw ddwy flynedd, i'w hen goleg ym Mangor yn Athro Hanes yr Eglwys.

Yn 1965, cafodd ei ddyrchafu'n bennaeth y Coleg, gan ddilyn Gwilym Bowyer (tad ein Gwynn Bowyer ni). Bu yno weddill ei yrfa ac yn dilyn cau'r coleg cafodd ei ddyrchafu'n Athro er anrhydedd yn Adran Diwinyddiaeth y Brifysgol yn 1989. Derbyniodd hefyd o du Prifysgol Cymru radd Doethor mewn Diwinyddiaeth er anrhydedd.

Roedd yn awdur toreithiog ar bynciau crefyddol a gwleidyddol ac ymhlith ei gyfrolau nodedig mae *Hanes Annibynwyr Cymru* (1966 ac a gyhoeddwyd yn y Saesneg yn 2004), *Vavasor Powel* (1971), *Yr Undeb: Hanes Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 1872-1972* (1975), a *Ffydd ac Argyfwng Cenedl: Cristionogaeth a Diwylliant yng Nghymru 1890-1914*: 2 gyfrol (1981, 1982).

Roedd hefyd yn adnabyddus ym maes cyhoeddi hanes crefydd yn Saesneg, fel *Congregationalism in England 1622-1922* a chyfrol ar y diwygiad Protestannaidd *The Great Reformation from Wycliffe to Knox* (1985) – cyfrol a enillodd iddo lawer o fri, yn enwedig yn yr Unol Daleithiau.

Cyfrannodd yn helaeth i nifer o gyfnodolion a chyhoeddodd ddetholiadau o'i erthyglau yn y cyfrolau, sef *Darganfod Harmoni* (1982) a *Ffydd yn y ffau* (1993).

Meddai Meic Stephens yn Cydymaith i Lenyddiaeth Cymraeg: *Protestant uniongred ydyw o ran ei ddiwinyddiaeth a Chenedlaetholwr brwd o ran ei wleidyddiaeth. Nodweddir ei holl weithiau gan ddysg dra eang a dwfn, barn bendant, ac yn arbennig yn ei lyfrau Cymraeg, ymwybod dwfn â harddwch iaith.*

Hyfforddodd do ar ôl to o fyfyrwyr ar gyfer y weinidogaeth dros y blynyddoedd ac ym maes Hanes yr Eglwys a Syniadaeth Gristionogol drwy Goleg Bala-Bangor a Choleg y Brifysgol Bangor.

Bu'n Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac yn Llywydd Cymdeithas Annibynwyr y Byd ac yn Gymedrolwr Cyngor Eglwysy Rhyddion Cymru a Lloegr. Bu hefyd ar wahoddiad y Gymuned

Ewropeaidd yn aelod o'r Gweithgor a ffurfiwyd i ystyried perthynas crefydd a bywyd, diwylliant a hanes, ymysg lleiafrifoedd Ewrop.

Bu'n ymgeisydd seneddol y Blaid Genedlaethol ar Ynys Môn ar ddau achlysur ac ysgrifennodd yn helaeth ar genedlaetholdeb.

Priododd â Gwenllian Edwards o Borthmadog yn 1948 a bu ganddynt dri mab a dwy ferch. Dilynodd y meibion lwybr eu tad fel gweinidogion ac ysgolheigion gyda'r Annibynwyr. Bu farw ar 23 Gorffennaf 1998. Claddwyd ei weddillion ym Mangor.

Bu R. Tudur Jones yn ffigwr sylweddol yn hanes crefyddol, cymdeithasol a gwleidyddol Cymru yn yr ugeinfed ganrif. Y syndod yw iddo gyflawni cymaint. Mae'r Athro R M Jones (Bobi Jones) yn ei ddisgrifio fel *'prif arweinydd meddyliol Cymru ers Thomas Charles a Thomas Jones (o Ddinbych) a chawr Protestaniaeth Cymru yn yr ugeinfed ganrif'*. Ac yng ngeiriau E Stanley John, golygydd *Y Gair a'r genedl: Cyfrol deyrnged i R Tudur Jones*, bu'n *'glod i'w genedl'* ac *'yn was ffyddlon i'w Arglwydd'*.

LANSIAD LLYFR

Nos Iau 8yh *24ain o Fehefin 2021*

Mae'n bleser gan Cyhoeddiadau'r Gair eich gwahodd i noson lansio rhithiol


Cyfrol Goffa i Euros Wyn Jones

Cofio Euros: cyfrol wedi ei golygu gan John Pritchard.



ZOOM: 886 7338 1723

Mwy o wybodaeth:
aled@ysgolsul.com | 01766 819120



Bydd cyfle ar y noson hefyd i archebu copi ar lein gyda chlodiant am ddim.

EITHIN MELYN MAI

Ar ôl i Lywodraeth Cymru roi caniatâd i ni fynd am wyliau o'r diwedd, aeth Ann a minnau am egwyl yng Nghymru, yn Sir Benfro, yn Nhre-fin ar fin y môr. Egwyl mewn hen feudy wedi'i droi'n dŷ bach twt - Ffynnon



Tom, yng nghanol y pentref. Er fy mod wedi ymweld â Thyddewi sawl gwaith o'r blaen, ni fûm erioed yn crwydro'r arfordir rhwng Tre-fin ac Abergwaun.



Braf oedd ymweld â Thre-fin, Mathri, Pwllderi ac ardaloedd rhygddynt. Ardaloedd hardd dros ben. Ar un ochr mae mawredd y môr diderfyn, a'r ochr arall benrhyn creigiog, ysgythrog. Dyma sy'n creu harddwch - môr a mynydd ac nid môr yn unig. Yn cydio'r cyfan ynghyd mae ffyrdd gwledig cul a throellog a'r gwrychoedd yn llawn o eithin melyn Mai'n disgleirio yn yr haul.



Roeddem yn lwcus yn y tywydd er y bu ambell i gawod yma ac acw.



Gwelsom **hen felin Tre-fin** uwchben y môr, ond braidd yn siomedig nad oedd telyneg **Crwys** wedi'i cherfio ar lechen ar wal y felin – dim ond hysbyseb bach yn dyfynnu'r bardd a dim esboniad pwy oedd Crwys!



Yr un siom a gefais wrth ymweld â **Phwllderi** ac aros i barcio'r modur ger Hostel Ieuencid (YHA). Does dim arwydd i'n cyfeirio at garreg goffa **Dewi Emrys** uwchben Pwllderi. Tybed a oes gormod o bwyslais ar fodloni Saeson dwad nag ar roi parch i ymwelwyr Cymraeg

a'u diwylliant arbennig hwy?

Daeth sefyllfa drist arall i'r golwg yn yr ardaloedd hyn. Caewyd y capel Presbyteriaidd a chapel bach y Bedyddwyr yn



Nhre-fin, a sylwais wrth basio heibio gapeli eraill yn yr ardaloedd cyfagos nad oedd yna arwydd y tu allan yn cyhoeddi amser y cyfarfodydd. Collwyd cyfle i gydaddoli mewn corlannau newydd! Rwyf yn sicr fod hyn yn wir ym mhob rhan o Gymru.

Nid yw hyn yn wir am bob capel, ond dylem o leiaf wneud ymdrech i ddenu ymwelwyr, gan fod Cymry Cymraeg yn mynd ar wyliau hefyd. Gyda llaw, yn Nhre-fin mae llyfrgell - mewn bwth teleffon! Da iawn wir. Ond:

Nid yw'r capel yn agored
Yn Nhrefin yn min y môr
Trôdd yr aelod olaf adre
Oedd yn eistedd yn ei gôr!

RHYW deimladau cymysg sydd gennyf ar ôl seibiant braf yn y cylch, ond byddaf yn cofio eithin melyn Mai yn rhoi lliw a gobaith newydd yn ôl ar ôl bygythiad Cofid-19.



CRISTION -- Cyhoeddiad deufisol

Am gopi – Cysylltwch â Sulwyn Thomas

CRISTION
Yn ystod y cyfnewid i'r ffordd hon (2018)

Catrin Wyn Davies yn Crwydro Cymru!

Ym mis Mehefin, rwyf am gerdded o amgylch llwybr arfordir Cymru i godi arian at yr elusen rwy'n gwirfoddoli drosti, sef 'Therapies Unite' ym Mecsico.

Mae Therapies Unite yn elusen wedi'i sefydlu yn Puerto Vallarta, Mecsico sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion gydag anableddau gwahanol,



sy'n byw heb offer ac adnoddau syml i'w helpu gyda'u bywydau bob dydd.



Mae'r elusen yn darparu adnoddau, offer a therapi na fyddai pobl fel arfer yn gallu'u hyfforddio. Gwneud gwahaniaeth parhaol yw'r bwriad, trwy ddarparu addysg i gleifion a'u teuluoedd, athrawon, gofalmwyr a'u darparwyr meddygol. Mae'r hyfforddi'n canolbwyntio ar ddatblygu dulliau o gynyddu annibyniaeth a safon byw'r bobl er gwaethaf eu cyflwr. Ar hyn o bryd rydym yn dibynnu llawer ar noddwyr a derbyn rhoddion fel cadeiriau olwyn, beiciau wedi'u haddasu, cadeiriau arbenigol a chymhorthion symud diangen o bedwar ban byd.

Yn anffodus, oherwydd y pandemig, roedd rhaid i mi ffoi o Fecsico a dychwelyd i weithio yn Ysbyty Glangwili fel

ffisiotherapydd. Ym mis Ionawr 2020 cesglais yr holl offer arbenigol ynghyd ac aethant mewn llong er mwyn iddyn nhw gael eu dosbarthu i'r cleifion ym Mecsico. Oherwydd y pandemig, mae nhw wedi'u storio mewn

porthladd ym Mecsico a neb hyd yma wedi elwa ohonynt! Mae Covid - 19 wedi rhoi straen mawr arnom ni i gyd, ac ergyd drom i systemau iechyd ac economi Mexico a thros y byd i gyd.



Y bwriad yw cerdded yr holl ffordd o amgylch Llwybr Arfordir Cymru.



Bydd y daith yn cymryd tua 10 wythnos i'w chwblhau a byddaf yn gwersylla ar hyd y rhan fwyaf o'r ffordd. Mae Cymru yn un o'r ychydig wledydd yn y byd sydd â llwybr troed arfordirol di-dor sy'n dilyn ei harfordir cyfan. Mae'n 870 milltir o hyd, yn dechrau yng Nghaer yn y Gogledd ac yn gorffen yng Nghas-gwent yn y De. Lle bo modd,

mae'r llwybr yn dilyn yr arfordir ac mae ganddo arwyddbyst â'r logo draig-gragen melyn a glas adnabyddus i ddangos y ffordd.



Croeso i chi ymuno â fi ar unrhyw rhan o'r llwybr neu oes hoffech fy nodd, cysylltwch â fi ar. catrinwyndavies@gmail.com. Neu sganiwch y 'QR code'. Bydd unrhyw cyfraniad yn helpu! Diolch, Catrin

Diolch i Catrin am yr erthygl a phob dymuniad da iddi ar y daith a'i hymdrech i helpu Therapies Unite

UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG Etholiad Darpar-lywydd 2021 Papur pleidleisio Eglwys Mae dau enwebiad	
	
Y Parchedig Carwyn Siddall Gweinidog Gofalaeth Bro Llanwchllyn a'r Cylch	Y Parchedig Jeff Williams Cyn Ysgrifennydd dros Gymru i Gymorth Cristnogol
Byddwn yn pleidleisio fel Eglwys dros un o'r uchod ar Fore Sul 13 Mehefin 2021. Cawn y wybodaeth gefndirol gan ein Gweinidog.	

DIWRNOD AMGYLCHEDD Y BYD

5 Mehefin 2021



Rydyn ni newydd ddathlu Diwrnod Amgylchedd y Byd. Bob blwyddyn ar y diwrnod hwn nod y Cenhedloedd Unedig yw codi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol a'r sialensiau rydym ni'n eu hwynebu yn y dyfodol.

Dechreuwyd dathlu Diwrnod Amgylchedd y Byd ym 1972 ac mae wedi datblygu i fod yn un o brif gyfryngau'r Cenhedloedd Unedig i symblu ymwybyddiaeth o'r amgylchedd ar raddfa fyd-eang ac i hyrwyddo sylw a gweithredu gwleidyddol.

Pacistan sy'n noddi'r diwrnod eleni.

Y thema eleni yw Adfer Ecosystemau.



Cafodd Degawd y Cenhedloedd Unedig ar Adfer Ecosystemau ei lawnsio ar y diwrnod arbennig hwn.

Mae llawer dull o Adfer Ecosystemau, er enghraifft

tyfu coed, glasu dinasoedd, ailwylltio gerddi, newid deiet neu lanhau afonydd ac arfordiroedd.

Mae ecosystemau'n sylfaenol i'n bywydau. Rhaid eu diogelu er mwyn ein planed a'n pobl. Mae cyfle arbennig gan ein cenhedlaeth ni i ailgysylltu pobl â byd natur i sicrhau ei fod yn cael ei ddiogelu a'i feithrin nawr ac yn y dyfodol. Manteisiwn yn llawn ar y cyfle!





DYLETSWYDDAU



GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

Mehefin		Gorffennaf	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Gareth Gravell		Alison Parsons	



DARLLENWYR



Mehefin	6	Delyth G Davies	Gorffennaf	4	Luned Voyle Thomas
	13	Ffion Parsons		11	Sul y Cyfundeb
<i>Sul y Tadau</i>	20	Y Tadau		18	Eirlys Jones
	27	June Thomas		25	Alison Parsons



CYHOEDDWYR



Mehefin	Elinor W Reynolda	Gorffennaf	Jayne Woods
---------	-------------------	------------	-------------

**Cerdyn o ddiolch a dderbyniodd y Priorddy oddio wrth Siân
Elin ar ddiwedd ei chyfnod gyda ni**



Diolch yn fawr i chi am eich
croeso cynnes dros y mis
dwethaf.

Pob bendith i chi fel achos yn
y Priorddy.

Siân Elin



DYMUNWN yn dda i bawb sy'n anhwylyd y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phob un sy'n gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Ein cofion cynhesaf atoch i gyd. Meddylw'n hefyd am Gwenda Edwards, Bow Street, gweddwr diweddar Barchedig W J Edwards, sydd yn Ysbyty Bron-glais Aberystwyth

Cafwyd hwyl fawr yn y Paned cyn Noswyllo diwethaf pan fwynhawyd cwis gan Yr Athro Emeritws Desmond a Nansi Hayes – y ddau wedi'u gwisgo mewn hetiau ffansi ar gyfer yr achlysur a Des gyda'i dei bo. Yn anffodus, ni chafwyd person cwbl wrthrychol i gadw sgôr a dyfarnodd Beti-Wyn mai'r merched oedd yn fuddugol! Ond diolch hefyd i'r dynion – a oedd yn lleiafrif bach ar y noson – am ymdrech arbennig!

Sefydlwyd y Cynghorydd Gareth John yn Faer Tref Caerfyrddin am yr ail flwyddyn yn olynol dros Zoom gyda'n Gweinidog, fel ei Gaplan, yn cymryd rhan. Dymuniadau da unwaith eto i Gareth wrth y llyw.

Bu Peter Hughes-Griffiths ar y newyddion ar S4C ynghylch derbyn y paentiad olaf a wnaethpwyd o Dylan Thomas y mae CofGar, sef ein Gwasanaeth Amgueddfeydd, wedi medru'i brynu. Bydd yn cael ei arddangos yn Ngaleri Arddangos yr Amgueddfa Sirol yn Abergwili ar ei newydd wedd pan fydd yr Amgueddfa'n cael ei hailagor ym mis Medi. Dim ond dwywaith mae'r llun wedi cael ei arddangos o'r blaen - yn Eisteddfod Genedlaethol Ystradgynlais yn 1954 ac yn 5 Cwmdoncin Drive, Abertawe sef cartref Dylan yn ystod ei blentyndod. Bu Peter hefyd ar **Raglen Geraint Lloyd** ar **Radio Cymru** yn egluro bod Adran Llyfrgelloedd y sir yn casglu gwahanol brofiadau pobl yn ystod cyfnod Cofid.



Ar **Prynhawn Da** ar **S4C** bu'r Dr Llinos Roberts yn trafod materion meddygol ac ar yr un rhaglen bu Tanwen Cray yn bwrw gowg dros gynnwys Papur Priordy Rhifyn Mai, sef rhifyn dathlu'r eglwys yn 150 oed.

I GLOI, llongyfarchiadau i Walford Davies, tad Beti-Wyn. Cododd dau lun o'i waith £140 yn arwerthiant Capel y Nant, Clydach at Gymorth Cristnogol yn ddiweddar! Ardderchog yn wir!

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Gorffennaf i'n
Gweinidog neu Alun Charles**

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad â Gwynfor a Janet Davies ar golli cefnder i Gwynfor, sef David Meirion John Phillips, Abertawe, ar 14 Ebrill 2021. Cofiwn am y teulu cyfan yn eu colled.

Cydymdeimlwn hefyd â Catrin a Baljinder a Carina ar golli tad Catrin, tad yng nghyfraith Baljinder a thad-cu Carina, sef Y Parchedig W I Cynwil Williams, cyn-weinidog Heol Dŵr, Caerfyrddin, Capel Mawr Dinbych a Heol Crwys Caerdydd, ar 1 Mai 2021. Anfonwn ein cofion cynnes at Carol, ei briod, a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth. Roedd yr angladd yng ngofal ein Gweinidog.

DIOLCH AM RODD

Rydym fel Eglwys yn ddiolchar iawn am y rhodd garedig a dderbyniwyd gennym er cof am y diweddar Victor Jones, Erw Hir gynt. Mae atgofion hyfryd gan lawer iawn ohonom am Victor a gwerthfawrogwyd yn fawr ei ffyddlondeb i'n hachos bob amser.

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Ann Griffiths / Ifor Evans, Catrin Wyn Davies a theuluoedd y Priordy am y lluniau'r mis hwn.





Y SULLIADUR



Mehefin	6	Bore	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog	C
	13	Bore	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog	
<i>Sul y Tadau</i>	20	Bore	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog	
	27	Bore	Oedfa gyda'n Haelodau	

Gorffennaf	4	Bore	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog	C
	11	Bore	Sul y Cyfundeb – Mwy o fanylion y mis nesaf	
	18	Bore	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog	
	25	Bore	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog	

Oedfa Fyw dros Zoom ar gyfer y sawl sy'n hunanynysu
Oedfa Ddigidol hefyd yn hwyrach ymlaen

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC

Mae cyfle i Blant yr Ysgol Sul a PIP ymuno â'r Oedfa Deulu bob Sul.
Bydd y Calendr yn ymddangos unwaith y bydd yr Ysgol Sul yn aildechrau.

DALIER SYLW



Mae hi'n hyfryd gallu aildechrau cynnal oedfaon
wyneb yn wyneb yn y Priordy. Hyderwn y bydd yr
amgylchiadau lleol yn caniatáu i ni barhau i wneud hynny.



Byddwn, wrth gwrs, yn cadw golwg ar y sefyllfa'n ddyddiol a
rhown wybod am unrhyw newidiadau i'r Suliadur mewn da bryd.

Pwysleisiwn hefyd y byddwn yn deall yn iawn os na fydd rhai
ohonom yn teimlo'n ddigon hyderus i fentro i'r oedfaon ar hyn
o bryd.